# LLAWLYFR MODWL

# ECAD7005C

## Dysgwyr, Ysgolion a Chymunedau: ble ydw i'n addysgu?

## Tystysgrif Addysg i Raddedigion gyda Statws Athro Cymwysedig (TAR)

## Lefel 7

**30 Credyd**

**Yr Athrofa**

**2025-2026**

**Ailddilyswyd Hydref 2023 i dderbyn myfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2024**

## 1. MANYLION CYSWLLT

Arweinydd y Modwl: Jessica Roberts jessica.roberts@uwtsd.ac.uk and Lilian Martin l.martin@uwtsd.ac.uk

## 2. EIN DISGWYLIADAU

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen. Rydym yma i'ch helpu.

Dylech wneud y canlynol:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn

Darllennwch Reoliadau Myfyrwyr y Brifysgol a Pholisi Ymgysylltu'r Athrofa.

## 3. AMCANION A DEILLIANNAU DYSGU

### AMCAN(ION)

Datblygu dealltwriaeth feirniadol darpar athrawon o’r modd y mae ffactorau y tu hwnt i’r ystafell ddosbarth yn dylanwadu ar y dysgu gan ddisgyblion e.e. polisïau cenedlaethol, cymunedau a theuluoedd, a sut mae’r ddealltwriaeth hon yn ymwneud â materion cyfiawnder cymdeithasol.

Ennyn diddordeb darpar athrawon gydag ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth sy’n cysylltu’r gymuned lle mae’r dysgwr yn byw â’r dewisiadau addysgegol a wneir yn y dosbarth er mwyn ysbrydoli dysgwyr a’u teuluoedd.

### DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau’r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai’r darpar athrawon allu

- adfyfyrio’n feirniadol ar y cyd-destun ysgol gan ystyried ffactorau diwylliannol, ieithyddol ac economaidd-gymdeithasol a allai ddylanwadu ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr;

- dangos tystiolaeth o ddealltwriaeth fanwl o rôl broffesiynol yr athro a chymhwyso hynny mewn perthynas â gweithio’n agos â rhieni, llywodraethwyr, awdurdodau lleol ac asiantaethau sy’n cefnogi ysgolion a’r gymuned ehangach;

- dadansoddi’n gywir a gwerthuso’n feirniadol data lleol a chenedlaethol i lywio penderfyniadau ar lefel yr ysgol gyfan a’r dosbarth, gan ddangos dealltwriaeth gadarn a chynhwysfawr o linellau atebolrwydd.

### CYNNWYS DANGOSOL

- Adolygiad beirniadol o ddatblygiad polisi ac arfer addysgol yng Nghymru, gan gynnwys blaenoriaethau cyfredol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a'r arolygiaeth ynghyd â’u trefniadau i sicrhau newid.

- Adfyfyrio, trafod a beirniadu effaith blaenoriaethau a mentrau cyfoes ar drefniadaeth ysgol gyfan a phrosesau datblygu ysgolion.

- Ystyriaeth o brosesau gwella ysgolion a yrrir gan faterion cyfoes i gefnogi gwelliannau mewn safonau dysgu ac addysgu.

- Archwiliad beirniadol o’r credoau athronyddol sy’n sail i amgylcheddau dysgu effeithiol mewn ysgolion e.e. gweledigaeth, datganiadau cenhadaeth, gwerthoedd ac ethos, a sut mae’r rhain yn cael eu sefydlu a’u cytuno gyda’r gymuned ehangach.
- Cyfle i ddangos cyfrifoldeb proffesiynol mewn perthynas â gweithio mewn system addysg ddwyieithog: er enghraifft, datblygu’r Gymraeg yn y cwricwlwm.

- Archwilio anghenion dysgwyr o gefndiroedd diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol amrywiol i sicrhau tegwch, a dangos gwerthfawrogiad y gall yr anghenion hyn newid mewn poblogaeth ysgol ddynamig.

- Datblygu’r nodwedd o fod yn rhan o gymuned gynhwysol o ymarferwyr ymholgar sy’n estyn y tu mewn a thu hwnt i’r ystafell ddosbarth ac i’r gymuned lle mae’r dysgwyr yn byw eu bywydau, trwy gyfrannu’n rhagweithiol at ystod o gynulleidfaoedd a mynd i’r afael yn weithredol ag ymholi a chanfyddiadau pobl eraill.

## 4. NODWEDD YMCHWIL

Trwy gydol y rhaglen TAR, mae gwaith Orchard a Winch (2015)[1] wedi'i addasu a'i grynhoi yn bedair nodwedd ymchwil. Mae'r rhain yn cael eu hegluro gan ddefnyddio enghreifftiau o wybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau sy'n amlygu'r nodwedd yn yr tabl isod.

| *Nodwedd* | Gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau | NY |
|---|---|---|
| *Bod yn sgeptigol* | Deall tystiolaeth empirig mewn maes dadleuol:<br>• Bod yn ymwybodol o'r gyrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'. | Sg |
| *Bod yn foesegol* | Deall sylfaen foesegol ymholi mewn gweithle cymhleth:<br>• Gwybod egwyddorion moesegol ymchwil;<br>• Deall ymagweddu (*positionality*) mewn ymchwil;<br>• Deall eich credoau a'ch tybiaethau eich hun am y byd. | Mo |
| *Bod yn ymchwilydd medrus* | Deall egwyddorion ymchwil y gwyddorau cymdeithasol, a gwybod y gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddir a pham:<br>• Deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau;<br>• Deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau;<br>• Deall dyluniadau pragmatig.<br>Deall sut i adeiladu dadl ar sail tystiolaeth a gwarant mewn ymchwil addysgol:<br>• Defnyddio sgiliau darllen beirniadol;<br>• Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'dystiolaeth'.<br>Gwerthfawrogi'n feirniadol faint o gefnogaeth a all fod ar gael neu beidio ar gyfer theorïau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd megis datblygiad plant a natur dysgu:<br>• Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'arloesi' (polisi ac ymarfer) neu'r 'peth mawr nesaf'.<br>Deall sut i ddefnyddio tystiolaeth empirig yn eich ystafelloedd dosbarth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd:<br>• Bod yn glir am yr hyn a fwriedir a pham;<br>• Diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd. | YM |
| *Bod yn rhan o broffesiwn ymholgar* | Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr ymholgar:<br>• Gwybod a ddylid, pryd a sut i rannu deilliannau ymholiad dosbarth;<br>• Cyfrannu'n rhagweithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd;<br>• Mynd ati i ymwneud ag ymholi a chanfyddiadau pobl eraill. | BY |

[1] Orchard J. & Winch C. (2015) *Philosophical Perspectives on Education Policy. What training do teachers need? Why theory is necessary to good teaching*. IMPACT no.22

## 5. GWYBODAETH ASESU

# DYRANIAD AMSER ASTUDIO

Mae 30 o oriau addysgu wedi’u hamserlennu ar gyfer y modwl hwn.

# ASESU

### Elfen Asesu 1

☐ **Arholiad ysgrifenedig** ☐ **Gwaith cwrs** ☒ **Ymarferol**

| **Dull asesu** | **Maint** | **Pwysoliad** |
|---|---|---|
| Cyflwyniad Fideo Unigol | 7 munud | 50% |

### Elfen Asesu 2

☐ **Arholiad ysgrifenedig** ☒ **Gwaith cwrs** ☐ **Ymarferol**

| **Dull asesu** | **Maint** | **Pwysoliad** |
|---|---|---|
| Aseiniad Ysgrifenedig | 2500 o eiriau | 50% |

# CRYNODEB O’R ASESIAD

| Math o Weithgaredd | Canran |
|---|---|
| Arholiad ysgrifenedig | |
| Gwaith cwrs | 50% |
| Ymarferol | 50% |
| CYFANSWM | 100% |

## 6. CYNNWYS Y MODWL

| | Dyddiad/ Date | Sesiwn/Session | RD |
|---|---|---|---|
| **Bore** | 7.1.26 | Cyflwyniad i'r modiwl (20 munud)<br>**S1** - Cyfalaf Cymdeithasegol a Gwerthoedd Addysgol<br>**S2** Cyflwyniad i Degwch a Chyfiawnder Cymdeithasol | Mo |
| **Prynhawn** | 7.1.26 | **S3** Rhan A Esboniad cam wrth gam - deall Rôl ac Effaith Ymgysylltu Teulu Ysgol: Archwiliad Beirniadol o strategaeth bosibl a'r effaith fwriedig ar y dysgwr | |
| | | | |
| **Bore** | 8.1.26 | **S4a** Fframweithiau Damcaniaethol – Ymgysylltu'n feirniadol â Bronfenbrenner, Epstein a Yosso (yn cynnwys safbwyntiau amgen Goodall).<br><br>**S5** Ymgysylltu â Theuluoedd - Normau, Rhwystrau a Phosibiliadau (Astudiaethau achos) | Sg<br>YM |
| **Prynhawn** | 8.1.26 | **S6** Cenedl Amlieithog a Dwyieithog.<br>*Nodyn atgoffa: Mae TAR yn dod â SDP/DDP a STEER ysgol yn unig ar gyfer sesiwn ddydd Llun* | Sg |
| | | | |
| **Bore** | 9.1.26 | **S7** Ailymweld â chyfiawnder cymdeithasol- Mynediad, Tegwch, Cyfranogiad a Hawliau Dynol<br>**S8** Rhan A, Enghreifftiau* | BY |
| **Prynhawn** | 9.1.26 | **S9 – Hunanastudio/amser darllen/ysgrifennu** | |
| | | | |
| **Bore** | 12.1.26 | **S10** Polisïau, PISA a Chenhadaeth Genedlaethol<br>**S11** Gwella Ysgolion | Sg |
| **Prynhawn** | 12.1.26 | **S12** Rhan B Esboniad cam wrth gam a chyfeirio at gymorth ysgrifennu academaidd ar Moodle | |
| | | | |
| **Bore** | 14.1.26 | **S12** Cenedl o amrywiaeth<br>**S13** Perspectif Sosiolegol<br>**Holiadur Adborth Modiwl / Module Feedback Questionnaire** | Mo |
| **Prynhawn** | 14.1.26 | **Galw Heibio/Cymorth** | |
| | | | |

TAR ECAD7005-C Dyddiad cyflwyno: Dydd Sul 25 Ionawr

## 7. TASGAU AC ARWEINIAD ASESU

Gweler y Fanyleb Asesu ar gyfer y modwl hwn sydd ar gael yn Moodle o dan “Gwybodaeth Asesu”.

## 8. RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Defnyddiwch Leganto ar gyfer y rhestr ddiweddaraf.
Leganto: ECAD7005C

**Hanfodol: Ewch i'r adran**


Roberts, J. (n.d.-a). School and *Family Engagement Links* https://padlet.com/jessicaroberts4/community-engagement-6og3hkytd9zcowon Go to item

Welsh Government. (2021). *Black, Asian and Minority Ethnic Communities, Contributions and Cynefin in the New Curriculum Working Group*. https://www.gov.wales/final-report-black-asian-and-minority-ethnic-communities-contributions-and-cynefin-new-curriculum Go to item

Arshad, R., Wrigley, T., & Pratt, L. (Eds.). (2020). *Social justice re-examined : dilemmas and solutions for the classroom teacher*. UCL Institute of Education Press. Go to item

Harris, A., & Goodall, J. (2008). Do parents know they matter? Engaging all parents in learning. *Educational Research (Windsor)*, *50*(3), 277–289. https://doi.org/10.1080/00131880802309424 Go to item

Choudry, Sameena. (2021). *Equitable Education : What everyone working in education should know about closing the attainment gap for all pupils* Critical Publishing. Go to item

Unicef. (n.d.). *Rights respecting schools - Resources*. https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/resources/teaching-resources/ Go to item

ESTYN. (2012). *Effective Practice in Tackling Poverty and Disadvantage in Schools*. https://www.estyn.gov.wales/thematic-report/effective-practice-tackling-poverty-and-disadvantage-schools-november-2012 Go to item

Smith, Emma. (2012). *Key issues in education and social justice* SAGE. Go to item

Smith, E. (2018). *Key issues in education and social justice* SAGE. Go to item

Education Endowment Foundation (EEF). (n.d.). *Putting Evidence to Work - A School’s Guide to Implementation*. EEF. https://educationendowmentfoundation.org.uk/education-evidence/guidance-reports/implementation Go to item

Roberts, J. (n.d.-b). *School Improvement links*. https://padlet.com/jessicaroberts4/e04tfqe8jmln73vb Go to item

Welsh Government. (n.d.-a). *New Framework for School Improvement to focus on learner progression*. https://media.service.gov.wales/news/new-framework-for-school-improvement-to-focus-on-learner-progression Go to item

**Ymhellach** Ewch i'r adran

Brownlee, J. L., Bourke, T., Walker, S., & Ryan, M. (2022). What influences teachers' support for children's reasoning about social inclusion in primary school education classrooms? *Australian Educational Researcher*, *49*(1), 155–173. https://doi.org/10.1007/s13384-021-00434-y Go to item

Kerr, K. (2014). *Education, disadvantage and place : making the local matter* Policy Press. https://doi.org/10.51952/9781447311225 Go to item

Nelson, T. D. (Ed.). (2016). *Handbook of prejudice, stereotyping, and discrimination* (Second edition.). Psychology Press. Go to item

Welsh Government. (2016). *Respect and resilience Developing community cohesion*. https://www.gov.wales/respect-and-resilience-developing-community-cohesion Go to item

Welsh Government. (n.d.-b). *Research Studies on the impact of the COVID-19 pandemic on the Welsh Education System*. https://hwb.gov.wales/professional-learning/leading-professional-learning/research-and-enquiry/national-strategy-for-educational-research-and-enquiry-nsere/research-studies-on-the-impact-of-the-covid-19-pandemic-on-the-welsh-education-system Go to item